Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
03000 654248

Cangen Atal Ymbelydredd a Llygredd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

18 Awst 2015

Annwyl Syr/Madam,

**YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr ymgynghoriad ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a phrosesau gweithredu ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn sgil penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu polisi i waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol ym mis Mai 2015.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r broses ymgynghori ac rydym wedi cynnwys ein hymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad dros y dudalen. Mae hyn yn dilyn ein hymateb blaenorol i adolygiad Llywodraeth Cymru o'r polisi y soniwyd amdano eisoes, y gwnaethom ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015. Caiff ein hymateb i'r adolygiad polisi y cyfeiriwn ato ei gynnwys fel atodiad.

Cysylltwch â mi os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fanylach.

Yn gywir,

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

**Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad**

| |
|---|
| **CWESTIWN 1.** A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru? |
| • Rhowch eich rhesymau.<br>• Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi. |

Yn ei rôl fel prif reoleiddiwr amgylcheddol Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â sawl llif gwaith aml-reoleiddiol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio sylweddau ymbelydrol yn y DU. Rydym yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau ledled y DU ar faterion cymhleth yn ymwneud â rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth y DU;
- Llywodraeth Cymru;
- Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd;
- gweithredwyr niwclear;
- y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR);
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban (SEPA);
- Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon (NIEA);
- yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA);
- Radioactive Waste Management Ltd (RWM).

Fel rhan o hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar y rhaglen Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) y mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i Radioactive Waste Management Ltd (RWM) ei chyflawni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio'n agos â'i sefydliadau rheoleiddiol partner sy'n rhan o'r rhaglen hon, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban bolisïau clir ar reoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd. Yng Nghymru a Lloegr, y polisi dewisol yw Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) wedi'i beiriannu yn ddwfn o dan y ddaear. Fodd bynnag, mae polisi Llywodraeth yr Alban yn ffafrio'r gwaith hirdymor o reoli Gwastraff Uwch ei Actifedd mewn cyfleusterau yn agos at yr wyneb.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain wedi'u nodi ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU *Rhoi Gwaredu Daearegol ar Waith* (Gorffennaf 2014) ac fel y sefydlwyd o dan raglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn gyson â phenderfyniad polisi diweddar Llywodraeth Cymru (Mai 2015) i gefnogi dull o waredu gwastraff uwch ei actifedd yn ddaearegol wedi'i beiriannu yn ddwfn o dan y ddaear.

Ymhellach, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried ei fod, drwy fabwysiadu trefniadau tebyg i Loegr a Gogledd Iwerddon, yn sefydlu polisi cyson ledled y DU (ac eithrio'r Alban). Mae'n galluogi dull clir, cyson a chydgysylltiedig o reoli gwastraff uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn helpu i hwyluso a chefnogi'r broses o gynnal rhaglen

CGD gyson a chost-effeithiol, gan sicrhau tryloywder i bawb dan sylw yn cynnwys y cyhoedd. Mae'n sicrhau y gellir gwneud cynnydd pellach ledled y DU wrth nodi atebion realistig ac ymarferol ar gyfer y gwaith o reoli a gwaredu gwastraff uwch ei actifedd yn yr hirdymor.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y byddai creu strwythur ar wahân ar gyfer lleoli trefniadau a phrosesau ar gyfer CGD yng Nghymru yn wrthgynhyrchiol, gan y byddai'n llai tebygol o gyflwyno rhaglen gyson a chost-effeithiol. Byddai hefyd yn osgoi unrhyw amrywiadau diangen mewn trefniadau gweinyddol a gweithdrefnol. Mae hyn yn cynorthwyo'r camau sgrinio, lleoli ac ymgynghori ac ymgysylltu, ni waeth ym mha un o'r tair gwlad y lleolir cymuned a allai gynnig lleoliad.

Ymhellach, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cefnogi'r ddarpariaeth oherwydd y nodwyd yn yr ymgynghoriad y byddai mabwysiadu'r un trefniadau â Lloegr a Gogledd Iwerddon; *'ar yr amod y bydd y trefniadau hynny yn diwallu anghenion Cymru ac yn diogelu buddiannau cymunedau yng Nghymru'.* Er hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw'r trefniadau ar gyfer Lloegr yn hollol addas ar gyfer materion a buddiannau cymunedau yng Nghymru. Rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y trefniadau a gynigir ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion a buddiannau cymunedau yng Nghymru. Byddem yn annog deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar y mater hwn yn cynnwys ymgysylltu â'r Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol a sefydlwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, neu o leiaf ystyried defnyddio deilliannau dysgu ganddo i ddatblygu trefniadau ymgynghori pellach yng Nghymru.

I grynhoi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad yng Nghymru a mabwysiadu'r prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

| |
|---|
| **CWESTIWN 2.** A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol? |
| • Rhowch eich rhesymau |

Fel y soniwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 1, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r trefniadau a'r prosesau a nodir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU *Rhoi Gwaredu Daearegol ar Waith* (Gorffennaf 2014). Mae hyn yn cynnwys y ddamcaniaeth sefydledig mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru ei bod *'o'r farn mai dim ond mewn partneriaeth â chymunedau sy'n barod i ystyried cynnig lleoliad drwy drafodaethau agored a hyddysg y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru'.*

| |
|---|
| **CWESTIWN 3.** 3: A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned? |

- Rhowch eich rhesymau.

Ydym.  Cred Cyfoeth Naturiol Cymru fod cefnogaeth y gymuned yn hanfodol i lwyddiant unrhyw raglen CGD ac y dylai fod ganddi hawl i dynnu'n ôl unrhyw bryd cyn cynnal y prawf cyhoeddus.  Dylai cymunedau allu derbyn a chymhathu’r wybodaeth a roddir iddynt ac yna ymateb er budd gorau'r gymuned a gynrychiolir ganddynt yn eu barn hwy.

| |
|---|
| **CWESTIWN 4.** A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Ydym.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig gan fod llwyddiant unrhyw gynnig yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned.  Dylai unrhyw gynnig fod yn seiliedig ar y garfan sy'n cynnwys y gymuned yn dangos ei chefnogaeth ar gyfer y cynnig yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd. Rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru fod am ystyried hyn, fel rhan o'r broses o adolygu'r trefniadau, gan egluro'r hyn a ddiffinnir fel cymuned mewn cyd-destun Cymreig oherwydd ei bod yn bosibl nad yw mor syml â chyfateb yr un trefniadau ag a nodir ar gyfer Lloegr.

| |
|---|
| **CWESTIWN 5.** Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Er mwyn sicrhau bod proses y prawf cyhoeddus yn dryloyw, ac yn diwallu anghenion Cymru, mae'n bwysig bod y prawf cyhoeddus yn gynhwysol.  O ystyried natur gymhleth Cymunedau yng Nghymru, mae'n bwysig y ceir dealltwriaeth glir o ystyr cymuned. Oherwydd y bydd gan unrhyw CGD bwysigrwydd yn y DU, mae'n hanfodol cael dulliau y cytunwyd arnynt yn glir ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.  Byddem yn cefnogi'r broses o ddatblygu dulliau sy'n galluogi adborth ehangach ar y broses i ddylunio'r dull a defnyddir yng Nghymru orau.

| |
|---|
| **CWESTIWN 6.** Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis y sgrinio daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianneg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Dylid.  Mae Cyfoeth Naturiol yn cefnogi'r ddarpariaeth mai dim ond mewn partneriaeth â chymunedau sy'n barod i ystyried cynnig lleoliad y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru.  Rhaid gwneud hyn drwy drafodaethau agored a hyddysg, yn cynnwys mynediad i wybodaeth allweddol er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

| |
|---|
| **CWESTIWN 7.** Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Dylent, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn.  Mae angen sicrhau bod digon o gyngor annibynnol ar gael i gymunedau fel y gallant wneud penderfyniad hyddysg. Mae angen darparu gwybodaeth dechnegol mewn ffurf addas, gan sicrhau ei bod yn hygyrch i'r gymuned dan sylw, ond hefyd gan roi digon o gyfle i brofi eu dealltwriaeth ag arbenigwyr annibynnol.

| |
|---|
| **CWESTIWN 8.** A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Ydym.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod y stocrestr o wastraff i'w waredu, h.y. y gwastraff sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei waredu mewn cyfleuster storio daearegol tanddaearol, yn allweddol ar gyfer trafodaethau gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad. Dylai cymunedau gael cymaint o wybodaeth â phosibl ynghyd â hyder bod y wybodaeth a ddarperir sy'n nodi'r stocrestr arfaethedig yn realistig ac yn gywir.  Mae hyn yn cynnwys gwastraff o'r rhaglen niwclear bresennol ac unrhyw wastraff a allai gael ei greu o gyfleusterau niwclear newydd.

| |
|---|
| **CWESTIWN 9.** A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu gynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Ydym, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu gynnwys gwastraff o gyfleusterau niwclear sy'n bodoli eisoes a rhai newydd er mwyn cynyddu capasiti posibl yr hyn a fydd yn gyfleuster wedi'i beiriannu sydd o bwys cenedlaethol i'r eithaf.

| |
|---|
| **CWESTIWN 10.** Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennych ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Dd/G

| |
|---|
| **CWESTIWN 11.** A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig a'r dadleuon ategol yn yr ymgynghoriad y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r trefniadau a'r prosesau a nodir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU.  Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad gan y Llywodraeth i ddarparu buddsoddiad ychwanegol i gymuned sy'n cynnig lleoliad, er mwyn iddi fanteisio ar y buddiannau economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â chynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster wedi'i beiriannu sydd o bwys cenedlaethol hanfodol.

| |
|---|
| **CWESTIWN 12.** A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD? |
| • Rhowch eich rhesymau. |

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig a'r dadleuon ategol yn yr ymgynghoriad y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r trefniadau a'r prosesau a nodir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU sy'n cynnwys yr ymrwymiad gan y Llywodraeth i ddarparu buddsoddiad i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y gymuned sy'n ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer y prosiect seilwaith hwn sydd o bwys cenedlaethol.

Diwedd.

**Atodiad 1 - Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Adolygiad Llywodraeth Cymru ar y Polisi i waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (Cyflwynwyd ym mis Ionawr 2015).**

**Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad**

| |
|---|
| **CWESTIWN 1.** Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae gan Lywodraeth Cymru dri opsiwn: |
| • a ddylai geisio mabwysiadu polisi o waredu GUA a gweddillion tanwydd pe datgenid eu bod yn wastraff?<br>• a ddylai gadw at ei safbwynt niwtral presennol o beidio â chefnogi nac ychwaith wrthwynebu opsiwn gwaredu?<br>• a ddylai fabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu opsiwn gwaredu ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff? |

Mae cyfrifioldebau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys rheoleiddio'r broses o waredu gwastraff ymbelydrol o safleoedd niwclear, yn ogystal ag eiddo 'anniwclear' yng Nghymru. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno a rheoleiddio trwyddedau amgylcheddol ac unrhyw weithgarwch gorfodi sy'n gysylltiedig â safleoedd sy'n cynhyrchu neu'n gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru.

Dros sawl degawd, mae gweithgarwch diwydiannol penodol yng Nghymru wedi creu gwaddol o Wastraff Uwch ei Actifedd (HAW) yn cynnwys gwastraff lefel uchel (HLW), gwastraff lefel ganolraddol (ILW) a chyfran o wastraff lefel isel (LLW) nad yw'r opsiynau gwaredu presennol yn addas ar ei gyfer. Yng Nghymru, mae cyfran o hyn wedi deillio o'r trydan a gynhyrchwyd yn y gorsafoedd ynni niwclear yn Nhrawsfynydd a Wylfa, a hefyd mewn cyfleusterau eraill yng Nghymru lle mae deunyddiau ymbelydrol wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol (ac yn dal i gael eu defnyddio) mewn prosesau gweithgynhyrchu radio-gemegol, meddygaeth, diwydiant a gwaith ymchwil.

Ymhellach, cadarnhawyd yn ddiweddar y bwriedir adeiladu cyfleuster newydd i gynhyrchu ynni niwclear yng Nghymru gan Horizon Nuclear power gyda chynllun adweithydd wedi'i ddarparu gan Hitachi GE Nuclear Ltd. Os caiff ei adeiladu, yn amodol ar yr holl asesiadau, cymeradwyaethau rheoleiddiol a chaniatadau angenrheidiol; byddai'r cyfleuster yn creu Gwastraff Uwch ei Actifedd a byddai angen rheoli a gwaredu Gweddillion Tanwydd yn sgil hynny. Hyd yn oed heb adeiladu cyfleusterau ynni niwclear newydd yng Nghymru, mae gwaddol o Wastraff Uwch ei Actifedd, yn ogystal â'r broses barhaus o gynhyrchu gwastraff o ffynonellau anniwclear y mae angen eu rheoli a'u gwaredu yn y pen draw.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli Gwastraff Uwch ei Actifedd sydd wedi cael ei gynhyrchu, sydd wrthi'n cael ei gynhyrchu ac a fydd yn cael ei gynhyrchu mewn cyfleusterau yng Nghymru.

Gan ystyried yr uchod, ac fel prif reoleiddiwr amgylcheddol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r broses o waredu gwastraff ymbelydrol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn:

- y dylai Llywodraeth Cymru nawr fabwysiadu polisi clir, pendant ar gyfer rheoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff o ffynonellau sy'n bodoli eisoes a ffynonellau yn y dyfodol, sy'n gyson â'i pholisi o gefnogi cyfleusterau niwclear ac anniwclear sy'n bodoli eisoes a chyfleusterau o'r fath a adeiledir yn y dyfodol yng Nghymru.

**CWESTIWN 2.** A ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban bolisïau clir ar reoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd. Yn Lloegr, y polisi a ffefrir yw gwaredu'r gwastraff hwn yn ddaearegol mewn proses wedi'i pheiriannu yn ddwfn dan y ddaear, tra bod polisi Llywodraeth yr Alban yn gwrthwynebu gwaredu daearyddol tanddaearol, gan ffafrio yn hytrach broses hirdymor o reoli Gwastraff Uwch ei Actifedd mewn cyfleusterau yn agos at yr wyneb.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod nad yw Polisi cyfredol Llywodraeth Cymru yn cefnogi nac yn gwrthwynebu polisi Llywodraeth y DU o waredu Gwastraff Uwch ei Actifedd yn ddaearegol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â chymysgedd o lifau gwaith aml-reoeiddiol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio sylweddau ymbelydrol yn y DU. Rydym yn cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Radioactive Waste Management Ltd ar y materion cymhleth sy'n ymwneud â rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol yn y Deyrnas Unedig.

Drwy hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi o'r gwledydd hynny yn y gymuned ryngwladol lle ceir Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd, mae'r mwyafrif yn cymhwyso (neu'n ystyried cymhwyso) gwaredu daearegol dwfn fel yr opsiwn a ffefrir ganddynt. O fewn y Gymuned Ewropeaidd mae nifer o aelod-wladwriaethau sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y broses o ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, rhaglenni sgrinio daearegol, rhaglenni nodi a dewis safleoedd. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi datblygu at ddechrau'r cam o adeiladu labordy creigiau neu gyfleuster storio daearegol.

Gan ystyried hyn, ac fel y nodir yn ein hymateb blaenorol i'r alwad am dystiolaeth ar yr adolygiad hwn o bolisïau (cyfeirier at Atodiad 1); rydym yn cadw at y canlynol, bod *'Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu argymhellion y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) a wnaed yn 2006 a'i ddatganiad a wnaed yn 2013, gan nodi ei argymhelliad mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn hirdymor gorau ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff'.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod, yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol fyd-eang, mai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer rheoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd yw gwaredu daearegol, ac mai'r dull a dderbynnir fwyaf cyffredin yw defnyddio cyfleuster storio daearegol dwfn wedi'i beiriannu. Fel y cyfryw, rydym yn cefnogi'r dull arfaethedig a nodir yn yr ymgynghoriad, y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi i ffafrio gwaredu daearegol.

Ymhellach, rydym yn cadw at y sylw a wnaed gennym yn flaenorol (Atodiad 1) ei bod yn hanfodol bod *'Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ymgysylltu ag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a gweithredwyr er mwyn chwarae rôl effeithiol ym mholisïau sylweddau ymbelydrol a phrosesau datblygu strategaeth y DU'.*

Pe byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisi yn ffafrio gwaredu daearegol, byddai'n sefydlu polisi cyson ledled Cymru a Lloegr. Byddai'n cyflwyno cyfle i gael dull clir, cyson a chydgysylltiedig o reoli Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor yng Nghymru a Lloegr.

Byddai hyn yn egluro'r sefyllfa gyffredin i bawb sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru a Lloegr; o weithredwyr niwclear a rheoleiddwyr i adrannau'r Llywodraeth, gan sicrhau y gellir gwneud cynnydd pellach wrth nodi atebion realistig ac ymarferol ar gyfer y gwaith o reoli a gwaredu Gwastraff uwch ei Actifedd yn yr hirdymor.

**CWESTIWN 3.** Os na fydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi o blaid gwaredu daearegol, a ddylai fabwysiadu polisi ar gyfer llwybr gwaredu amgen ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff? Os felly, pa bolisi y dylai ei fabwysiadu?

Fel y disgrifiwyd yn ein hatebion i Gwestiynau 1 a 2 uchod, ac yn ein hymateb i'r alwad am dystiolaeth (Atodiad 1), ceidw Cyfoeth Naturiol Cymru y farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol er mwyn rheoli Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff yn yr hirdymor.

Ymhellach, fel y nodwyd yn Atodiad 1, ceidw Cyfoeth Naturiol Cymru y farn ganlynol; *'y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn ei adolygiad o bolisïau yr angen am gyfleusterau storio interim a hirdymor ar gyfer gwaredu daearegol...'*

*'Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr amser y rhagwelir y bydd yn ei gymryd i greu cyfleuster gwaredu daearegol, a'i bod yn bosibl y bydd hyd yn oed y genhedlaeth nesaf o gyfleusterau ynni niwclear wedi cael eu datgomisiynu cyn y bydd y cyfleuster ar gael, yn cynnwys y Wylfa Newydd arfaethedig'.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylid gwahanu'r broses o waredu'r llifau gwastraff unigryw hyn oddi wrth y broses o'u storio yn yr hirdymor, yn seiliedig ar y cysyniad o adferadwyedd, h.y. p'un a ellir adfer y gwastraff ai peidio. Yn symlach, credwn os gellir adfer y deunydd, mai wedi'i storio y mae, ac os nad yw hynny'n bosibl, mai proses waredu derfynol a gafwyd.

Oherwydd ei bod yn debygol y bydd angen storio interim a hirdymor, hyd nes y bydd ateb terfynol ar gael ar gyfer dull gwaredu wedi'i beiriannu, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried i ba raddau y mae unrhyw bolisi gwaredu yn y dyfodol yn ystyried trefniadau ar gyfer sgorio yn yr hirdymor.  Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried hyn pe byddai opsiwn amgen i waredu daearegol ar gyfer y llif gwastraff unigryw hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o bolisïau.

**CWESTIWN 4.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff?

Cyfeiriwn at ein hymateb i Gwestiwn 4 ar yr alwad am dystiolaeth (Atodiad 1) mewn perthynas â'r canlynol *'Pe byddai'r gwaith o adeiladu cyfleuster gwaredu daearegol yn mynd rhagddo, byddai angen i gynllun a rheolaeth y cyfryw gyfleuster ac unrhyw gyfleusterau storio interim cysylltiedig ysbrydoli hyder ymysg yr holl gymunedau yr effeithir arnynt o'r camau cynharaf. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried fel rhan o'i hadolygiad yr angen am bolisïau Llywodraeth clir a rheoliadau effeithiol i ennyn hyder y gymuned.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod, pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu mai gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd (y datganwyd eu bod yn wastraff) yn ddaearegol yw eu polisi, nad yw hyn yn golygu o reidrwydd y byddai safle gwaredu o'r fath wedi'i leoli yng Nghymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai angen tystiolaeth bellach er mwyn sefydlu bod lleoliad ag amodau daearegol addas er mwyn lleoli cyfleuster storio daearegol yng Nghymru neu fod cymuned yng Nghymru a fyddai'n gwirfoddoli i gynnig lleoliad ar gyfer y cyfryw gyfleuster. Er y gall Llywodraeth Cymru ddewis cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y DU o ddewis gwaredu daearegol fel yr opsiwn a ffefrir, efallai na fydd yr amgylchiadau penodol yn ffafrio lleoli'r cyfryw gyfleuster storio yng Nghymru.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Atodiad 1, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn: *'Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gynhyrchwyd yng Nghymru gan gyfleusterau niwclear sy'n bodoli eisoes a rhai a gaiff eu hadeiladu yn y dyfodol a hefyd gan ddiwydiant yng Nghymru a'r sector meddygol. Mae Cymru wedi manteisio'n gymdeithasol ac yn economaidd drwy ddefnyddio'r sylweddau ymbelydrol hyn a chytunwn fod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer rheoli'r gwastraff hwn.*

I grynhoi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i lunio polisi pendant ar reoli a gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd a gweddillion tanwydd y datganwyd eu bod yn wastraff. Rydym hefyd yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn y ddogfen adolygu polisi, y dylid dewis gwaredu daearegol fel yr ateb a ffefrir.

**Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales**

**Ionawr 2015**